Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

**2021 Rhif 202 (Cy. 49) (C. 5)**

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 6) 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sydd wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru, yn dwyn i rym ddarpariaethau penodedig o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym Bennod 1 o Ran 3 (adrannau 4 i 29) o'r Ddeddf ar 1 Mawrth 2021, i'r graddau nad yw'r darpariaethau hynny eisoes wedi eu cychwyn. Mae erthygl 2 hefyd yn dwyn i rym Atodlen 1 (cosbau penodedig) ac Atodlen 2 (ysmygu: diwygiadau canlyniadol) i'r Ddeddf. Cyflwynir Atodlen 1 gan adrannau 27 a 49 o'r Ddeddf, a chyflwynir Atodlen 2 gan adran 29 o'r Ddeddf.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 2 | 4 Hydref 2017 | 2017/949 (Cy. 237) (C. 85) |
| Adran 3 | 4 Hydref 2017 | 2017/949 (Cy. 237) (C. 85) |
| Adran 6 (yn rhannol) | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Adran 10 (yn rhannol) | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Adran 11 (yn rhannol) | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Adran 15 | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Adran 16 | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Adran 17 (yn rhannol) | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Adran 18 (yn rhannol) | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Adran 27 (yn rhannol) | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Adran 28 (yn rhannol) | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Adran 94 | 1 Chwefror 2018 | 2018/1 (Cy. 1)[(1)] |
| Rhan 5 | 1 Chwefror 2018 | 2018/1 (Cy. 1) |
| Rhan 7 | 1 Ebrill 2019 | 2019/829 (Cy. 152)[(2)] |
| Rhan 8 | 31 Mai 2018 | 2018/605 (Cy. 116) (C. 48) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| Adran 119 | 4 Hydref 2017 | 2017/949 (Cy. 237) (C. 85) |
| Atodlen 1 (yn rhannol) | 29 Medi 2020 | 2020/1048 (Cy. 234) (C. 30) |
| Atodlen 4 | 31 Mai 2018 | 2018/605 (Cy. 116) (C. 48) |

(1) Ni ddyrannwyd rhif i'r offeryn yn y gyfres o Offerynnau Cychwyn.

(2) Ni ddyrannwyd rhif i'r offeryn yn y gyfres o Offerynnau Cychwyn.

*Gweler* hefyd adran 126(1) o'r Ddeddf ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar 3 Gorffennaf 2017 (dyddiad y Cydsyniad Brenhinol).

# 2021 Rhif 202 (Cy. 49) (C. 5)

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

## 2021 Rhif (Cy. ) (C. )

## IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 6) 2021

*Gwnaed* *25 Chwefror 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 126(2) o Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 6) 2021.

(**1**) 2017 dccc 2.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr “y Ddeddf” yw Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

**Y darpariaethau sy’n dod i rym ar 1 Mawrth 2021**

**2.** Y diwrnod penodedig i’r darpariaethau a ganlyn o’r Ddeddf ddod i rym yw 1 Mawrth 2021, i’r graddau nad ydynt eisoes mewn grym—

(a) adran 4 (ysmygu);

(b) adran 5 (y drosedd o ysmygu mewn mangre ddi-fwg neu gerbyd di-fwg);

(c) adran 6 (y drosedd o fethu ag atal ysmygu mewn mangre ddi-fwg);

(d) adran 7 (gweithleoedd);

(e) adran 8 (mangreoedd sydd ar agor i’r cyhoedd);

(f) adran 9 (lleoliadau gofal awyr agored i blant);

(g) adran 10 (tir ysgolion);

(h) adran 11 (tir ysbytai);

(i) adran 12 (meysydd chwarae cyhoeddus);

(j) adran 13 (mangreoedd di-fwg ychwanegol);

(k) adran 14 (darpariaeth bellach ynghylch mangreoedd di-fwg ychwanegol: anheddau);

(l) adran 17 (arwyddion: mangreoedd di-fwg);

(m) adran 18 (awdurdodau gorfodi);

(n) adran 19 (pwerau mynediad);

(o) adran 20 (gwarant i fynd i mewn i annedd);

(p) adran 21 (gwarant i fynd i mewn i fangreoedd eraill);

(q) adran 22 (darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad);

(r) adran 23 (pwerau arolygu etc.);

(s) adran 24 (rhwystro etc. swyddogion);

(t) adran 25 (eiddo a gedwir: apelau);

(u) adran 26 (eiddo a gyfeddir: digolledu);

(v) adran 27 (hysbysiadau cosb benodedig);

(w) adran 28 (dehongli’r Bennod hon);

(x) adran 29 (diwygiadau canlyniadol);

(y) Atodlen 1 (cosbau penodedig); a

(z) Atodlen 2 (ysmygu: diwygiadau canlyniadol).

*Eluned Morgan*
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
25 Chwefror 2021